

GALWAD

AILYSGRIFENNU'R DYFODOL

DEFNYDDIO DARLLEDIADAU NEWYDDION
A CHREU STRAEON I DDELWEDDU'R 2052
YR HOFFEM EI CHREU



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndir

Stori o'r dyfodol yw GALWAD ond stori yn unig ydyw, wedi ei chreu gan bobl sy'n byw nawr. Nid ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, ond rydym yn gwybod bod gennym y pŵer a'r potensial i greu ein dyfodol ein hunain.

Weithiau dim ond y pethau drwg y rhagwelir y byddant yn digwydd neu sydd eisoes yn digwydd yr ydym yn clywed amdanynt yn y newyddion a'r cyfryngau. Gall hyn wneud i'r dyfodol ymddangos yn llawn pryder a gall hefyd arwain atom yn teimlo na allwn newid yr hyn sy'n mynd i ddigwydd. Mewn rhai achosion, trwy ragweld canlyniad gwael, rydym yn gosod ein hunain ar y trywydd iawn i greu mai dyma'r unig ddyfodol posibl. Mae gan y cyfryngau ran enfawr i'w chwarae yn y modd yr ydym yn cyfathrebu'r negeseuon hyn.

Mae dychmygu'r dyfodol yr ydym am fyw ynddo yn hanfodol bwysig oherwydd, os na allwn dychmygu'r dyfodol hwnnw, sut y byddwn yn gweithio tuag at ei greu?

Mae adrodd straeon yn cael ei ddefnyddio mewn diwylliannau ar draws y byd a thrwy gydol hanes i rannu ac esbonio gwerthoedd, addysgu ein gilydd, profi syniadau newydd a chofio ein treftadaeth ddiwylliannol a digwyddiadau pwysig. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ysbrydoli eraill, i ddiddanu ac i rannu negeseuon pwysig.



Mae peth o'r dystiolaeth gynharaf o straeon yn 30,000 o flynyddoedd oed ac wedi'i ganfod fel lluniau ar waliau ogofâu yn Ffrainc.



Roedd y stori Twenty Thousand Leagues Under the Sea, gan Jules Verne, mor ysbrydoledig i Simon Lake fel yr aeth ymlaen i ddyfeisio'r llong danfor gyntaf.



Dangoswyd bod gwyllo llawer o newyddion yn cael effaith negyddol ar ein hiechyd corfforol a meddyliol.

Mae bodau dynol wrth eu bodd yn cael eu diddanu gan stori ac yn aml gallant ymgysylltu mwy â stori na dim ond y wybodaeth ar ei phen ei hun. Gall straeon gan bobl y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt, er enghraifft, ddod â'r

materion yn fyw ac ennyn diddordeb pobl mewn cymryd camau llawer mwy na chlywed y ffeithiau yn unig.

Mae straeon hefyd yn gyfle i rannu teimladau a syniadau, a all fod yn amhrisiadwy i rai plant a fyddai fel arall yn gweld siarad am bryderon yn heriol.

Mae'r ddau weithgaredd yma wedi'u cynllunio i'n helpu ni i greu ein stori ein hunain o'r dyfodol yr hoffem ei weld a bod yn rhan ohono.

Gweithgaredd 1

Edrychwch yn ôl ar y ffilm hon o 1992 yn dangos pennod o BBC Newsround - [Newsround 23 Ionawr 1992 \(youtube.com\)](https://www.youtube.com/watch?v=...)

Beth sydd wedi newid dros y 30 mlynedd diwethaf o ran yr hyn a adroddir a sut y caiff ei adrodd? A oedd y newyddion yn bositif neu'n negyddol? A ydym wedi datrys unrhyw rai o'r problemau yr adroddwyd arnynt?

Cofiwch fod gennym y pŵer i greu ein dyfodol ein hunain. Gyda hyn mewn golwg, beth fydd yn y newyddion yn 2052?

Rhowch gynnig ar greu eich darllediad newyddion byr eich hun o'r dyfodol. Gallwch gynnwys beth bynnag yr ydych yn ei hoffi a gallwch ddewis a yw'n newyddion cadarnhaol neu ddim mor gadarnhaol. Dyma rai awgrymiadau ar sut i wneud stori newyddion:

- Meddyliwch am y mathau o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn y newyddion. Anaml y byddant yn adrodd straeon am bethau sy'n digwydd bob dydd. Yn lle hynny maen nhw'n adrodd ar bethau pwysig sydd newydd ddigwydd, fel datblygiad gwyddonol, dyfais newydd neu gyhoeddiad gan y llywodraeth. Maen nhw hefyd yn adrodd ar ddigwyddiadau annisgwyl fel trychineb neu drosedd, neu rywbeth eithriadol fel stori dwymgalon am rywun yn goresgyn salwch difrifol neu'n bod yn ddewr yn wyneb her enfawr.
- Mae straeon newyddion fel arfer yn dechrau gyda phennawd. Sut allwch chi grynhoi'r stori gyfan mewn un frawddeg, fel y bydd pobl eisiau clywed gweddill y stori?
- Yna mae angen i chi sefydlu "pwy", "beth", "pryd", a "ble" yr hyn sydd wedi digwydd. Ar bwy yr effeithiwyd neu a allai gael eu heffeithio, gan beth, a phryd a ble y digwyddodd.

- Yna, gallwch chi fod yn fwy disgrifiadol a siarad am 'sut' y digwyddodd a 'pam' y digwyddodd neu 'pam' ei fod yn bwysig. Efallai y byddwch yn gorffen gyda beth yw'r effaith neu beth allai ddigwydd nesaf.

Os oes gennych le, rhowch gynnig ar ffilmio eich darllediad newyddion ac ychwanegu delweddau at eich cefndir neu sgrin werdd.

Neu fe allech chi greu bwrdd stori o'r hyn fydd yn cael ei gynnwys a pha ddelweddau fydd yn cael eu dangos.

Braf fydd rhannu'r rhain gyda'r dosbarth i gael cipolwg ar rai o straeon gwahanol y dyfodol.

Gweithgaredd 2



Enw'r cymeriad rydyn ni'n ei chyfarfod yn stori GALWAD yw Efa ac mae'n dweud wrthym sut mae hi wedi ymweld â'r dyfodol. Mae stori a chymeriad Efa yn ffuglen, maen nhw wedi dod o ddychymyg rhywun ac mae actorion wedi dod â hwy yn fyw.

- Pa stori fydddech chi'n ei hadrodd o'r dyfodol? Crëwch eich stori fer eich hun o'r dyfodol gan ddefnyddio'ch cymeriad ffuglennol eich hun.

- A fydd eich stori wedi'i seilio yn y dyfodol neu a fydd gan rywun sydd wedi teithio'n ôl o'r dyfodol?
- A fydd neges i'ch stori neu ai er mwyn difyrru yn unig ydyw?
- Mae storiwr da yn peintio llun gyda geiriau felly meddylwch am sut olwg fydd ar eich cymeriad, sut bydd yn disgrifio'r hyn y mae'n gallu ei weld neu wedi'i weld a pha deimladau y gallai eu profi.



Gallai eich stori gael ei hysgrifennu, ei darlunio neu ei siarad neu hyd yn oed ei throi yn gân, pa un bynnag sydd fwyaf addas i chi.

Os ydych chi'n gyfforddus i rannu'ch stori ag eraill, efallai ar draws yr ysgol neu'r gymuned ehangach, ystyriwch beth yw eu hymateb i'ch stori o'r dyfodol.

Myfyrio

Weithiau dydyn ni ddim yn sylweddoli faint o effaith mae'r straeon rydyn ni'n eu gweld a'u clywed yn ei chael arnom ni. Gall stori dda aros yn ein dychymyg am amser hir iawn a hyd yn oed ysbrydoli ein dewisiadau gwaith neu ffordd o fyw yn y dyfodol. A oes unrhyw beth yr ydych wedi clywed amdano, ei ddarllen neu ei wyllo mewn stori yr hoffech ei weld mewn gwirionedd?

Yn yr un modd rydyn ni'n cael ein dylanwadu gan yr hyn rydyn ni'n ei glywed ac yn ei weld yn y newyddion ac weithiau gall ein canfyddiad gael ei effeithio trwy glywed y newyddion drwg yn unig a dim digon o'r newyddion da. Sut ydych chi'n meddwl y dylai ein diwydiant newyddion a'r cyfryngau newid i gefnogi creu 2052 cadarnhaol?

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Unigolion iach, hyderus

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mae llenyddiaeth yn tanio dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

Iechyd a Llesiant

- Mae sut rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant emosiynol

GALWAD

UNBOXED

CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB

33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB

029 2025 6767

keepwalestidy.cymru

info@keepwalestidy.cymru



Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gytiroh wales
cadlus tidy